**Trosolwg o’r system Pasbort Planhigion ar gyfer pren, cynnyrch pren**

**a rhisgl**

Bydd mabwysiadu pasbort planhigion ar gyfer pren yn dangos bod y diwydiant coedwigaeth wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o fioddiogelwch. Hefyd, bydd defnyddio pasbortau planhigion gan y sector coedwigaeth yn gwella ymwybyddiaeth o fygythiadau bioddiogelwch sy'n deillio o blâu cwarantin megis y chwilod rhisgl conwydd ‘*Ips typographus’*, mae achos ohonynt yn cael ei ddileu ar hyn o bryd yn ne Lloegr.

Mae'r Rheoliad Iechyd Planhigion newydd (UE) 2016/2013 yn ei gwneud yn ofynnol inni ddefnyddio pasbortau planhigion er mwyn symud pob coeden o rywogaeth conwydd a *Castanea* (e.e. planwydden) gyda neu heb risgl. Cyfeirir at y rhywogaethau hyn, a rhywogaethau eraill sy'n cael eu mewnforio o wledydd nad ydynt o fewn yr UE, sy’n cael eu hystyried ar y cyd fel "deunydd coedwigaeth a reoleiddir er Iechyd Planhigion"

Ar gyfer y rhywogaethau hyn, bydd angen pasbort planhigion ar gyfer pob cam o'r gadwyn gludo ble y caiff boncyffion coed cyfan neu wedi'u malu (gan gynnwys tocion) eu symud o'r safle casglu ac/neu y safle crynhoi, i'r prosesydd. Bydd angen pasbort planhigion hefydd ar gyfer symud rhisgl yn unig o brosesydd pren i brosesydd rhisgl, ar gyfer coed Nadolig dros 3 troedfedd o uchder ac ar gyfer canghennau conwydd wedi'u torri o goed dros 3 troedfedd o uchder.

Mae'r system bresennol ar gyfer rheoli'r conwydd sy'n cael eu hallforio gyda'r rhisgl o ardal heb blâu yng ngorllewin yr Alban i Ogledd Iwerddon ac Iwerddon yn parhau, gyda'r newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â'r Rheoliad Iechyd Planhigion.

**Manteision**

1. Mae'r DU wedi arwain ar yr hyn fu yn drafodaethau cynhyrchiol gyda Comisiwn yr UE. Mae hyn wedi arwain at destun cynhwysfawr ar gyfer y Rheoliad Iechyd Planhigion fydd yn cryfhau bioddiogelwch ar draws prif elfennau trefn iechyd planhigion y DU.

2. Mae Llywodraeth Cymru a Gweinyddiaethau Datganoledig yn cefnogi amcanion cyffredinol y Rheoliad Iechyd Planhigion, a bydd ei weithredu yn sicrhau bioddiogelwch cryfach drwy ddull yn seiliedig ar risg nad yw'n rhoi baich di-angen ar ddiwydiant.

3. Bydd cyflwyno pasbortau planhigion i symud y cynnyrch pren a amlinellir uchod yn golygu y gall y DU gadw statws Ardal Warchod ar gyfer chwilod rhisgl conwydd a phlâu hysbys a newydd eraill. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y DU yn amddiffyn ei buddiannau masnachol a chadwraeth mewn coedwigoedd a choetiroedd, ac i barhau i allforio deunydd planhigion ar basbort i ardaloedd gwarchod eraill yr UE.

4. Os bydd y DU yn ymadael â'r UE ar Hydref 31ain 2019 heb gytundeb, rydym yn bwriadu mabwysiadu egwyddorion y deddfau hyn ond byddwn yn edrych eto ar y ddeddfwriaeth derfynol cyn penderfynu pa fesurau manwl fydd o fudd i'r DU eu gweithredu.

5. Ar ben hyn, mae'n haws cynllunio i weithredu system basbort planhigion wahanol nawr, gan bod amser i wneud hynny, ac yna dal yn ôl rhag ei rhoi ar waith, yn hytrach na gadael popeth tan y funud olaf.

Wrth sefydlu rheoliadau newydd cafodd ei gydnabod y byddai angen amser ar gwmnïau cofrestredig i addasu systemau presennol i fodloni'r gofynion newydd, a chafodd fformat pasbortau eu nodi fel maes amlwg oedd yn peri pryder. Oherwydd hynny, cafodd llunio deddfwriaeth drydyddol yr UE yn pennu manylion y fformat newydd ei flaenoriaethu, a chafodd ei gadarnhau y byddai unrhyw basport planhigion oedd yn cael ei gyhoeddi cyn 14 Rhagfyr 2019 yn y fformat bresennol yn parhau i fod yn ddilys tan 14 Rhagfyr 2023.

Mae trafodaethau'n parhau i ddatblygu deddfwriaeth fanwl ar gyfer agweddau eraill ar ofynion y pasbort planhigion. Ochr yn ochr â fformat gofynnol y pasbort planhigion a gaiff ei argraffu, bydd treialu y defnydd o basportau electronig ar gyfer planhigion yn opsiwn ar gyfer cwmnïau proffesiynol.

Mae Defra yn gweithio gyda cyrff cyflenwi, Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r Comisiwn Coedwigaeth, yn ogystal â chymdeithasau masnach, i sicrhau bod y sector yn barod i gyhoeddi pasbortau planhigion.

**Diffiniadau**

Mae Tabl 1 yn nodi'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rheoli pasbortau planhigion. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn uniongyrchol gyfrifol am reoli deunydd coedwigaeth wedi'i reoli er Iechyd Planhigion yn Lloegr, yn ogystal â meddu ar gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i reoli'r deunydd hwn ar gyfer Gweinyddiaethau datganoledig Cymru a'r Alban.

***Tabl 1 Swyddogaethau a chyfrifoldebau***

| **Diffiniadau Erthygl 2 o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid** | **Y Cyd-destun coedwigaeth** | **Esboniad** |
|---|---|---|
| Awdurdod Cymwys (AC) | Comisiwn Coedwigaeth (ar ran Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban) & DAERA yng Ngogledd Iwerddon | Bydd y Comisiwn Coedwigaeth a DAERA yn rheoli'r broses o gymeradwyo ac archwilio cyrff sy'n cyhoeddi pasbortau planhigion er mwyn symud deunydd coedwigaeth a reoleiddio er Iechyd Planhigion. Bydd pob AC yn cadw cofrestr o gwmnïau cofrestredig awdurdodedig. |
| Gweithredwr Proffesiynol Awdurdodedig Cofrestredig (RAPO) | Busnes sydd â’r awdurdod angenrheidiol i gyhoeddi pasbortau planhigion ar gyfer symud mathau penodol o bren, cynnyrch pren a rhisgl | Gallai enghreifftiau o RAPOau gynnwys; proseswyr (h.y. gweithredwr sy’n prosesu pren, cynnyrch pren a rhisgl, e.e. gweithgynhyrchwyr byrddau panel melinau coed, proseswyr rhisgl), cwmnïau rheoli, masnachwyr a chontractwyr coed. Ni fydd perchnogion coedwigoedd yn cyhoeddi pasbortau fel arfer os nad ydynt yn gyfrifol am symud coed. |

Mae Tabl 2 yn nodi deunydd coedwigaeth wedi'i reoleiddio er Iechyd Planhigion sydd angen pasbort planhigion pan gaiff ei symud o fewn y DU ac i Ardaloedd Gwarchod cydnabyddedig yr UE. Bydd gweithredu'r rheoliad ar y cychwyn yn golygu targedu yn unol â'r risg bioaddiogelwch, gan flaenoriaethu'r masnachu mwyaf a'r tebygolrwydd bod plâu yn bresennol. Mae pasbortau planhigion ar gyfer symud blawd llif, sglodion pren (cyd-gynnyrch) a phren slab (heb neu gyda rhisgl) a deunydd pacio o bren yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth is na phren crwn a rhisgl ar ei ben ei hun.


***Tabl 2 deunydd coedwigaeth wedi'i reoleiddio er Iechyd Planhigion ble y mae angen pasbort***

<table>
<tr><th>Math o bren, cynnyrch pren a rhisgl</th><th>Cludiant (ffyrdd, rheilffyrdd a môr) ble y mae angen pasbort planhigion</th></tr>
<tr><td>Pren crwn cyfan, e.e. coed cyfan,<br>pren bach a choed wedi'u torri</td><td rowspan="5">Unrhyw gam o'r gadwyn gludiant ble y mae pren crwn neu sglodion yn cael eu symud o'r safle cwympo i'r prosesydd.<br>Symud pob rhisgl ar ei ben ei hun o brosesydd i brosesydd rhisgl. Symud llwythi wedi'u rheoli o goed Nadolig/addurnol a changhennau a thocion.</td></tr>
<tr><td>Sglodion coed o docion neu bren crwn ar safleoedd casglu neu safleoedd eraill ble y cesglir y pren.</td></tr>
<tr><td>Symud rhisgl ar ei ben ei hun</td></tr>
<tr><td>Coed Nadolig/coed addurnol eraill a changhennau wedi'u torri (o goed sydd dros 3 metr o uchder) o rywogaethau Abies, Picea, Pinus a Pseudotsuga, gyda neu heb wreiddiau.</td></tr>
<tr><td>Tocion, sef canghennau wedi'u torri, pren o foncyffion gwastraff, topiau coed a choed marw a byw.</td></tr>
<tr><td>Rhisgl ar ei ben ei hun, wedi'i greu o brosesau fel cael gwared o risgl</td><td>Yn golygu rhisgl sydd wedi'i dynnu neu wedi dod oddi wrth coeden wedi'i thorri neu sydd wedi syrthio o unrhyw ran o goeden o'r fath.</td></tr>
</table>

## Cynllun pasbort planhigion

Ceir enghreifftaiu o basportau planhigion isod i symud coed conwydd, cynnyrch coed, rhisgl ar ei ben ei hun a choed Nadolig/canghennau wedi'u torri a thocion a reoleiddir o fewn y DU, ac sy'n defnyddio codau plâu Ardal Warchod ar gyfer chwilod rhisgl conwydd *Ips amitinus* c7, *Ips duplicatus* c9, and *Ips typographus* c11.

**Ffigwr 1 Pasbort Planhigion i'w gynnwys mewn nodyn cyflenwi ar gyfer symud deunydd coedwigaeth a reoleiddir er Iechyd Planhigion o fewn y DU**



Woodlands Management Ltd, Goodtown, Oldshire

**DELIVERY ADVICE NOTE**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Delivery Advice Note Number | **123456** |
| Forest Name | Sustainable Forest | Certification Status | FSC 100% | | |
| WM Contract No. | 5350032 | Certificate Number | AA-COC-0000000 | PIN Supplier Ref: | |
| Customer Name & Delivery Site | **ABC Sawmills, Wuden** | | | Supplier Contract No. | Sustainable Forest Cpt 1 |
| | | | | Customr Ref . | |
| | | Stock location: | | Weighbridge ticket No. | 12345 |
| Haulier | Wonder Wood | Vehicle Reg | AA00 WUD | Contractor | Contract Harvesting Ltd |
| Species | SS | Product | green logs | specification | **4.8 x 16** |
| Collection date | 10/06/2019 | Delivery Date | 10/06/2019 | Delivery Time | 3.40 pm |
| Gross | 43.62 | Tare | 17.10 | Nett | 26.52 |
| | | Received by | A N Other | | |

1 **Plant Passport-PZ** 2

ZP- c7, c9, c11 3


**A : Pinales** 4 **B: GB/FC******** 5 **C: 123456** 6 **D: GB** 7

Plant passport 8

**Original to be returned to the above address**

Deliveries are made on the terms outlined in the Woodlands Management Ltd CONDITIONS OF TIMBER SALE

**Ffigwr 2 Pasbort Planhigion sydd heb ei gynnwys mewn nodyn cyflenwi i symud deunydd coedwigaeth a reoleiddir er Iechyd Anifeiliaid o fewn y DU**




Yn Ffigurau 1 a 2, mae elfennau y pasbort planhigion wedi'u nod â rhifau coch gydag eglurhad isod:

1. Baner yr UE, naill ai mewn lliw, neu du a gwyn, naill ai sêr gwyn ar gefndir du neu fel arall.
2. Y geiriau 'Plant Passbort - PZ' yn Saesneg.
3. Enw(au) gwyddonol plâ(u) yr ardal warchod o dan gwarantin neu, fel arall, y codau a ddefnyddir ar gyfer y plâu hynny.
4. Enw(au) botanegol rhywogaeth y planhigyn(planhigion) neu'r teulu(oedd) o dan sylw. Ar gyfer pob coed conwydd gellir defnyddio'r Order Pinales ac ar gyfer castanwydd pêr mae'n rhaid defnyddio *Castanea*, ac ar gyfer planwydd rhaid defnyddio *Platanus.*
5. Y cod dwy lythyren ar gyfer yr Aelod-wladwriaeth y mae'r cwmni proffesiynol sy'n cyhoeddi'r pasbort planhigion wedi'i gofrestru. Y cod ar gyfer y DU (gan gynnwys Gogledd Iwerddon) yw GB. Rhif cofrestru cenedlaethol mewn llythrennau, rhifau, neu gyfuniad y cwmni proffesiynol dan sylw.
6. Cod olrhain (ni ellir defnyddio rhifau y nodyn cyngor cyflenwi) y planhigyn, cynnyrch y planhigyn neu wrthrych arall dan sylw.
7. Cod dwy lythyren yr Aelod-wladwriaeth y tarddiad, h.y. defnyddir GB ar gyfer y DU.
8. Fel enghraifft ond nid o angenrheidrwydd ar hyn o bryd, dangosir cod QR a allai gynorthwyo'r broses o dreialu'r pasbortau electronig na ellir eu defnyddio ar hyn o bryd. Gellir defnyddio codau QR i ategu'r cod olrhain.

Gellir defnyddio'r ddolen hon i weld y Rheoliad Iechyd Planhigion newydd (UE) 2017/2313 sy'n disgrifio cynllun y pasbortau planhigion.

Mae'n rhaid i RAPOau sy'n rheoli symudiad coed conwydd, cynnyrch coed, rhisgl ar ei ben ei hun a choed Nadolig/canghennau wedi'u torri a thocion i Ogledd Iwerddon ac Iwerddon gynnwys hefyd y codau plâu ZP ar gyfer chwilod rhisgl conwydd; *Dendroctonus micans* c3, *Ips cembrae* c8 and *Ips sexdentatus* c10.

Wrth symud pren, cynnyrch pren a rhisgl ar ei ben ei hun o gastanwydd pêr neu blanwydd bydd angen nodi'r rywogaeth ar basport y planhigyn o dan Adran A a'r disgrifiad canlynol o'r pla *ryphonectria parasitica* b2 (ar gyfer malltod castanwydd) a *Ceratocystis platani* b1 (ar gyfer staen cancr coed planwydd). Os bydd y codau ZP yma yn newid, cyhoeddir diweddariad.

Bydd elfennau y pasbort planhigion yn cael ei drefnu o fewn siâp hirsgwar neu sgwâr, a bydd yn bosibl ei weld heb ddefnyddio cymhorthion gweledol. Bydd yr elfennau o fewn llinellau ffiniol, neu fel arall wedi eu gwahanu'n glir oddi wrth unrhyw ddeunydd ysgrifenedig neu ddarluniadol, fel bod modd eu gweld yn glir a'u bod yn hawdd eu hadnabod. Mae'n rhaid i'r pasbort planhigion ddilyn fformat penodol (heb unrhyw wybodaeth ychwanegol) a ddisgrifir ar gyfer pasbort planhigion a'i arddangos ar unrhyw ddeunydd sy'n addas ar gyfer argraffu'r pasbort planhigion. Wrth ddefnyddio'r dull hwn o weithio, gellid cynnwys y pasbort planhigion ar nodyn cyngor cyflenwi.

**Archwiliadau Blynyddol**

Mae'n rhaid i'r awdurdod cymwys gwblhau archwiliadau blynyddol o RAPOau sy'n cyhoeddi pasbortau planhigion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliad Iechyd Planhigion. Gellid cynnal yr archwiliadau hyn yn llai aml, fel unwaith bob dwy flynedd pan fydd Cynllun Rheoli Risg Plâu wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod cymwys wedi'i sefydlu am ddwy flynedd. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn edrych ar fodelau archwilio, gan gynnwys defnyddio archwilwyr contract a ellid eu cyfuno ag archwiliadau eraill, megis y rhai hynny ar gyfer y gadwyn cystodaeth, i leihau'r baich ar ddiwydiant.

11 Hydref 2019